## RHAN 2 – ERTHYGLAU’R CYFANSODDIAD

### Erthygl 5 – Cadeirio’r Cyngor

---

5.1 **Rôl a Swyddogaeth yr Arglwydd Faer**

Bydd y Cyngor yn penodi Arglwydd Faer ac Is-Arglwydd Faer pob blwyddyn. Bydd yr Arglwydd Faer, ac os nad yw'r Arglwydd Faer yn bresennol, yr Is-Arglwydd Faer yn cadeirio cyfarfodydd y Cyngor ac yn cyflawni rolau a’r swyddogaethau a ganlyn:

(a) cynnal a hyrwyddo dibenion y Cyfansoddiad, a dehongli’r Cyfansoddiad pan fo angen;

(b) cadeirio cyfarfodydd y Cyngor fel bod modd cyflawni ei fusnes yn effeithlon a chan ystyried hawliau'r Cynghorwyr a budd y gymuned;

(c) sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm ar gyfer dadlau ar faterion gerbron y cyfarfod ac yn le lle caiff Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau Cabinet ddwyn y Cabinet i gyfrif;

(d) cyflawni dyletswyddau mewn perthynas ag Absenoldeb Teuluol Aelodau dan Reoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013;

(e) fel arweinydd dinesig Caerdydd, i hyrwyddo buddiannau ac enw da'r Cyngor a Chaerdydd yn ei gyfanrwydd a gweithredu fel llysgennad i'r ddau, ac ymgymryd â gweithgareddau dinesig, cymunedol a seremonïol a meithrin cymuned adnabod a balchder.